




Ysgol Gymraeg
Melin Gruffydd, Caerdydd

Cofia ddysgu byw...

Polisi Gwrth Fwlio Melin Gruffydd

Beth yw Bwlio?

Yn ein hysgol ni, bwlio yw pan mae rhywun yn hala rhywun arall yn drist, dychryn, anafu rhywun neu fod yn gas ar-lein sawl gwaith yn bwrpasol. Cofiwch SGAB

Ein hawliau

Mae gan bob un ohonom hawliau. Mae ein hawliau yn cynnwys hawl i fod yn hapus, iach, diogel, i fynegi ein hun ac i gael ein lleisiau wedi clywed.

Mae bwlio yn gallu bod yn:

- Emosiynol- Gadael rhywun allan o gêm neu grŵp.
- Corfforol- Dyrnu, cicio, poeri, taro.
- Lleisiol- Pryfocio neu alw enwau.
- Seibr- Anfon negeseuon cas.
- Hiliaeth- Galw enwau oherwydd lliw croen neu grefydd.

Os ydych yn cael eich bwlio neu weld rhywun yn cael ei bwlio dyle chi...

GALW NHW ALLAN.



Mae'n hollbwysig i chi wneud rhywbeth am y peth yn hytrach na gwneud dim.
Dywedwch wrthyn nhw am stopio
Dywedwch wrth eich athro/wes
Dywedwch wrth oedolyn cyfrifol
Mae yn bosib eu cael i stopio.



Beth sydd yn digwydd i

Bwli



- Rhaid i chi gymryd cyfrifoldeb am eich gweithredoedd a derbyn y sancsiynau a roddwyd.
- Mae angen i chi gymryd camau i atgyweirio'r niwed yr ydych wedi ei achosi.
- Fe fyddwn yn cysylltu gyda'ch rhieni i drafod y mater.
- Mae angen i chi siarad ag oedolyn am eich gofidiau a'ch pryderon.

Beth yw bwllo?



sawl



Gwaith



r



wrpas



**Galwch
nhw allan**

